# PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Gibson, Green, Lancaster, Lloyd Jones, Jackie Parry, Proctor a/ac Wood |

## 13 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Shifa Shazad.

## 14 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 15 : COFNODION

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2023 fel gwir gofnod a'u llofnodi gan y Cadeirydd, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Eitem CDLl Newydd

10$^{fed}$ pwynt bwled – ychwanegu'r geiriau 'ar gyfer datblygiadau newydd' ar ôl 'Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned' [yn y fersiwn Saesneg - eisoes wedi'i newid yn y fersiwn Gymraeg].

11$^{eg}$ pwynt bwled – newid 'gogledd / dwyrain gorllewin' i 'gogledd-orllewin / dwyrain' [yn y fersiwn Saesneg - eisoes wedi'i newid yn y fersiwn Gymraeg].

## 16 : DISODLI'R FFLYD AILGYLCHU AR GYFER CASGLIADAU PRESWYL

Daeth adroddiad gerbron y Pwyllgor a oedd yn rhoi cyfle i'r Aelodau nodi a thrafod adroddiad y Cabinet o'r enw 'Disodli'r Fflyd Ailgylchu ar gyfer Casgliadau Preswyl' cyn cyflwyno adroddiad y Cabinet i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2023. Mae'r adroddiad yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo prynu 41 o gerbydau casglu ailgylchu newydd dros gyfnod o dair blynedd fydd yn costio £9.7 miliwn ar amcangyfrif.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y fflyd bresennol o Gerbydau Casglu Ailgylchu a Sbwriel wedi'u caffael yn 2013/14 drwy gytundeb llogi dan gontract. Ar ddiwedd y cytundeb yn 2018/19, cafodd y cerbydau eu prynu a'u cynnal gan y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog (GTC).

Cwblhawyd cynnig i uwchraddio'r fflyd yn 2021/22 mewn perthynas â Cherbydau Casglu Sbwriel ar gyfer 'gwastraff gweddilliol a gardd'. Fodd bynnag, cafodd y penderfyniad mewn perthynas â cherbydau casglu gwastraff bwyd ei ohirio nes bod eglurhad ar sut y byddai ailgylchu ar wahân ar ymyl y ffordd yn cael ei gasglu. Yn dilyn y cynllun peilot ar gyfer ailgylchu, penderfynwyd bod angen y cerbydau canlynol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ailgylchu ar gyfer Caerdydd:

- Cerbydau casglu gwastraff wedi'u rhannu yn y cefn i gasglu cynwysyddion (tuniau a phlastigau) yn ogystal â phapur / cerdyn cymysg

- Cerbyd llwytho o'r top, wedi'i inswleiddio rhag sŵn y tu mewn, i gasglu gwydr

- Cerbyd llwytho o'r top sy'n blastig ar y tu fewn i gasglu gwastraff bwyd

Yr ateb a ffefrir yw i'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog (GTC) brynu'r cerbydau newydd a fydd wedyn yn cael eu prydlesu. Bydd GTC yn darparu cefnogaeth barhaus o fewn cyllideb y gwasanaeth hwnnw. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi mai cyfyngedig yw'r capasiti gwefru yn Ffordd Lamby, er yr hoffai'r gwasanaeth gyflwyno cerbydau casglu gwastraff trydan. O ganlyniad, bydd rhai cerbydau fflyd yn cael eu prynu a byddai eraill yn cael eu prydlesu i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'r gwasanaeth ddisodli cerbydau disel gyda thrydan pan fydd hyn yn bosibl.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strydlun i'r cyfarfod. Yn dilyn datganiad byr gan yr Aelod Cabinet, dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y capasiti ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan ychwanegol yn Ffordd Lamby yn gost afresymol neu wedi'i gyfyngu gan y gofod sydd ar gael. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod y capasiti ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu gan y rhwydwaith grid pŵer ehangach. Nid oedd yn bosibl cynyddu'r cyflenwad trydan i is-orsaf Ffordd Lamby heb fuddsoddiad sylweddol gan Western Power i uwchraddio eu ceblau pŵer. Mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu capasiti gwefru o ffynonellau ynni adnewyddadwy (ynni'r haul a gwynt) o gyfleuster a reolir gan y Cyngor ger Ffordd Lamby. Byddai hyn yn arwain at 'economi gylchol'. Byddai darparu storfa ynni ar y safle hefyd yn darparu gwytnwch pe bai toriadau pŵer.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai cerbydau llai yn cael eu caffael sy'n gallu mynd at breswylfeydd lle mae'r mynediad yn gyfyngedig. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y byddai amrywiaeth o gerbydau o wahanol faint yn cael eu prynu. Mae'r cerbydau casglu gwastraff mwy o faint yn gyrff cul i ganiatáu mynediad hawdd a bydd cerbydau 7.5 tunnell a 12.5 tunnell llai yn cael eu defnyddio hefyd. Fodd bynnag, mae llawer o broblemau mynediad yn gysylltiedig â cherbydau sydd wedi'u parcio ac mae hyn yn cael sylw mewn partneriaeth â gwasanaeth arall gyda'r bwriad o wella mynediad.

- Nododd yr aelodau y byddai nifer o gerbydau yn cael eu gwaredu. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r cerbydau hynny'n cael eu gwerthu er mwyn ariannu prynu'r cerbydau newydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod y cerbydau dan sylw ar 'ddiwedd eu hoes' a bydd GTC yn ceisio eu gwerthu ymlaen neu gael gwared arnynt am eu gwerth sgrap. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod 25% o'r holl gerbydau ar brydles er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn y galw am wasanaethau.

- Gofynnodd yr Aelodau a fydd cyflwyno'r Strategaeth Ailgylchu yn raddol yn ei gwneud yn golygu bydd angen prynu cerbydau ychwanegol wrth iddi fynd yn ei blaen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y bydd y pryniant yn ymdrin ag agwedd ailgylchu ar wahân y Strategaeth Ailgylchu ac ni fydd angen cerbydau ychwanegol. Bydd y broses gaffael yn digwydd mewn dau gam - mae 40,000 o eiddo yn mabwysiadu'r newidiadau ym mis Hydref 2023 ac 80,000 arall ym mis Gorffennaf i Awst 2024.

- Gofynnodd yr aelodau a allai oedi yn y broses gaffael achosi oedi wrth gyflwyno'r strategaeth gwastraff ar wahân. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd y dyddiadau targed yn cael eu cyflawni. Bydd cerbydau'n cael eu prydlesu i ddechrau er mwyn cyrraedd y targedau. Bydd y cerbydau a brynir yn cael eu defnyddio i gwmpasu ail gam y broses o gyflwyno'r strategaeth yn bennaf.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad pellach o drefniadau prydlesu'r gwasanaeth gyda’r GTC. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod y cynllun busnes rheoli fflyd yn pennu ei bod yn fwy cost effeithiol i GTC brynu cerbydau fflyd ac i wasanaethau eu prydlesu'n ôl gan ddefnyddio eu cyllidebau ar sail refeniw. Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod trefniadau prydles yn hyblyg ond bod cyfnodau rhybudd wedi'u hymgorffori i gytundebau prydlesu - ac mae cyfnodau rhybudd byrrach am derfynu prydles yn fwy costus.

- Gofynnwyd i swyddogion a fyddai cost gyffredinol ail-lenwi cerbydau â thanwydd yn cael ei leihau drwy drosi i gerbydau trydan ac a fyddai hyn yn golygu y byddai’r cerbydau newydd yn gost-niwtral. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd casglu gwydr ar wahân yn arwain at fwy o incwm. Ar hyn o bryd, mae casgliadau cymysg yn golygu bod angen prosesu gwydr ar gost o £15-20 y dunnell. Mae gwydr ar wahân yn cael ei werthu rhwng £35-45 y dunnell – enillion net o dua £60 y dunnell.

- Gofynnwyd i swyddogion wneud sylwadau ar y defnydd o'r cerbydau â chefn rhanedig o ran cyfran y cerbydau sy'n cael eu defnyddio i gasglu'r gwahanol fathau o wastraff a gyflwynir. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod defnyddio cerbydau â chefn rhanedig yn cyflwyno heriau gan eu bod yn llenwi ar gyfraddau gwahanol. Felly bydd 30% o'r cerbydau yn casglu cynwysyddion a thuniau plastig a bydd 70% o'r cerbydau yn casglu papur a cherdyn. Mae'r ddwy ffrwd yn cael eu cywasgu i fod mor effeithlon â phosibl. Cafodd y ddau ddull casglu eu treialu yn ystod y cynllun peilot. Roedd criwiau casglu gwastraff yn nodi eu bod yn ffafrio'r cerbydau â chefn rhanedig gan fod y casgliadau’n cael eu cwblhau'n gynt mewn lleoliadau trefol.

- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y prif fanteision a oedd yn deillio o gaffael y cerbydau newydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai ailgylchu ar wahân yn arwain at lai o ôl troed carbon i breswylwyr. Mae gwastraff yn cynrychioli tua

3% o allyriadau o ran ôl troed carbon. Fodd bynnag, mae mwyngloddio a gweithgynhyrchu'r deunyddiau crai a ddefnyddir i wneud alwminiwm, gwydr a phlastig yn cynrychioli 45% o'r ôl troed carbon byd-eang, felly bydd ailddefnyddio'r deunyddiau hynny yn cael effaith fawr. Bydd casglu gwastraff ar wahân hefyd yn atal halogi'r gwastraff i'w ailgylchu ac yn dileu'r ddibyniaeth ar 27 miliwn o sachau ailgylchu plastig gwyrdd a ddarperir i breswylwyr bob blwyddyn. Mae cael gwared ar halogiad, yn bennaf o fwyd, yn arwain at leihau sbwriel yn y strydlun gan nad yw fermin ac adar yn cael eu denu i'r sachau amldro mwyach. Nododd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod y timau glanhau yn cael eu hailstrwythuro a bydd glanhau'r strydlun yn digwydd ar ôl casgliadau yn y rhan fwyaf o leoliadau.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r cerbydau sy'n cael eu caffael yr un cerbydau a ddefnyddir mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru sy'n gweithredu cynlluniau ailgylchu ar wahân tebyg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod rhai ardaloedd awdurdod lleol eraill yng Nghymru yn wledig eu natur ac yn defnyddio cerbyd sy'n casglu'r holl ailgylchu ar wahân mewn un ymweliad. Mae hyn yn gweithio'n dda mewn ardaloedd lle mae eiddo'n wasgaredig, ond mae llai o fudd mewn ardaloedd trefol gan fod y cerbydau'n aros ar strydoedd am gyfnod hirach gan achosi anawsterau i draffig sy'n ceisio mynd heibio, ac ati. Mae'r model sy'n cael ei fabwysiadu yn debyg i'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio yn Abertawe.

- Gofynnodd yr Aelodau a wnaed unrhyw ddadansoddiad ar yr allyriadau o'r cerbydau disel sy'n cael eu caffael. Cafodd yr aelodau wybod y bydd y cerbydau'n achosi allyriadau ond peiriannau categori diweddaraf Euro 6 fydd yr injans ac mae eu safonau allyriadau yn uwch na cherbydau hŷn, a fydd yn welliant.

- Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r cerbydau'n cael eu defnyddio tan 'ddiwedd eu hoes'. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y byddai'r newid i fflyd gwbl drydanol yn cymryd sawl blwyddyn. Mae'r cerbydau'n cael eu caffael ar gyfer oes llawn y cerbydau, sef rhwng 5 a 7 mlynedd. Dros y cyfnod hwnnw bydd newidiadau yn y broses o gynhyrchu cerbydau trydan, er enghraifft, bydd newid i inswleiddiad silica mewn batris yn caniatáu gwefru'r batri yn gynt. Mae cerbydau casglu gwastraff trydan yn gerbydau prototeip ac mae'r awdurdod yn arwain y ffordd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, wrth asesu sut mae'r cerbydau hyn yn perfformio a pha mor effeithlon ydyn nhw.

- Gofynnwyd i swyddogion a oedd modd cyrraedd y targed sero-net erbyn 2030 yng Nghaerdydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod allyriadau carbon y Cyngor yn sylweddol mewn rhai ardaloedd ond eu bod yn gyfyngedig. Mae rhai diwydiannau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol. Gall y Cyngor gyrraedd sero-net ond bydd ailgylchu deunyddiau gwastraff yn helpu'r ddinas i leihau ei hôl troed carbon yn ei chyfanrwydd. Yr uchelgais i Gymru yw creu economi gylchol, felly os oes angen 100,000 tunnell o wydr ar Gymru yna bod 100,000 tunnell yn cael ei ailgynhyrchu yng Nghymru. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cyfarfod cyntaf y CYAL (Cynlluniau Ynni Ardal Leol) wedi'i gynnal yn ddiweddar

a'u bod yn gosod llinell sylfaen ar gyfer defnydd ynni Caerdydd a sut y bydd yn cael ei datgarboneiddio. Cafodd CYAL gyflwyniad ar y defnydd o ynni yn y Ddinas ac awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor dderbyn y cyflwyniad hwnnw mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Nododd yr aelodau nad oedd cynllun ailgylchu ar wahân yn benodol ar gyfer tai amlfeddiannaeth yn y ddinas. Gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn hyderus bod y cerbydau sy'n cael eu caffael yn addas ar gyfer tai amlfeddiannaeth yn absenoldeb cynllun o'r fath. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y bydd rhai o'r fflyd bresennol yn cael eu cadw i gasglu ailgylchu cymysg o dai amlfeddiannaeth. Ar ôl cyflwyno ailgylchu ar wahân mewn tai safonol, bydd y ffocws yn newid i ailgylchu ar wahân mewn tai amlfeddiannaeth. Ar hyn o bryd, mae Tai Amlfeddiannaeth yn derbyn nifer o finiau, cadis a bagiau ac mae preswylwyr yn cyflwyno eu gwastraff yn unigol. Mae'r gwasanaeth yn awyddus i sicrhau nad yw'r model a fabwysiadwyd yn cael effaith andwyol ar y strydlun.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r potensial ar gyfer cynllun dychwelyd poteli gwydr yng Nghymru yn effeithio ar achos busnes y cerbydau newydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y byddai cynllun dychwelyd poteli yn golygu y byddai angen addasu'r model mabwysiedig. Fodd bynnag, bwriad y cynllun dychwelyd poteli yw lleihau sbwriel hefyd. Nid oedd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn ystyried bod hyn yn fater sylweddol, oherwydd pe bai swm y gwydr a gasglwyd yn gostwng 50% ar ôl gweithredu cynllun o'r fath, yna byddai nifer y cerbydau yn cael ei leihau yn unol â hynny.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod y cerbydau a brynwyd gan gyflenwr y Cyngor a aeth i ddiddymiad yn rhoi gwerth am arian.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

## 17 : RHAGLENNU GWAITH BUSNES Y PWYLLGOR

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r rhaglen waith ddangosol ddrafft ar gyfer y Pwyllgor. Gofynnodd yr Aelodau am gynnwys adroddiadau diweddaru am fioamrywiaeth a'r orsaf fysus ganolog yn y rhaglen waith.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

## 18 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## 19 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu ar Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 14 Medi 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.15 pm